office of the independent adjudicator

# Fframwaith Arfer Da

## Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill

Diwygiwyd
Chwefror 2024

# Cynnwys

**Rhagarweiniad . . . 5**

**Ystyried cyd-destun gweithredol partneriaeth . . . 7**

Cyfraith ddomestig a rheoleiddio . . . 7

Cyfraith a rheoleiddio rhyngwladol . . . 8

**Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA . . . 10**

Trefniadau sy'n ymwneud â darparydd dyfarnu neu sefydliad dyfarnu a phartner cyflwyno . . . 10

Darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon mewn Ysgol (SCITTs) . . . 13

Trefniadau lle mae'r naill bartner a'r llall yn bartneriaid dyfarnu . . . 14

**Pan nad yw'r darparwyr mewn partneriaeth i gyd yn aelodau o'n Cynllun . . . 15**

Mae'r partner dyfarnu yn aelod o'n Cynllun ond nid yw partner(iaid) cyflwyno'n aelodau o'n Cynllun . . . 15

Mae'r partner cyflwyno'n aelod o'n Cynllun ond nid yw partner(iaid) dyfarnu'n aelodau o'n Cynllun . . . 16

Mathau eraill o bartneriaeth . . . 18

Prentisiaethau . . . 18

Athrofeydd Technoleg . . . 18

Darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac endidau masnachol eraill . . . 19

Lleoliadau gwaith . . . 20

**Darparwyr â threfniadau partneriaeth lluosog . . . 21**

**Arfer da mewn cyd-destun partneriaeth . . . 22**

Egwyddorion trosfwaol . . . 22

Eglurder . . . 22

Prydlondeb . . . 22

Datrysiad Anffurfiol . . . 22

Cyngor a chanllawiau / cymorth . . . 23

Ymchwiliad ffurfiol . . . 23

Adolygiad Terfynol . . . 23

**Cyfleoedd i ystyried cwynion, apeliadau a phrosesau eraill mewn trefniadau partneriaeth . 24**

Wrth sefydlu partneriaethau newydd . . . 24

Dynodi cyfrifoldebau . . . 24

Casglu a rhannu gwybodaeth . . . 24

Cynnig datrysiadau . . . 25

Mynediad at gyngor a chanllawiau . . . 25

Dysgu o gwynion . . . 25

Edrych tua'r dyfodol . . . 25

Yn ystod trefniadau partneriaeth . . . 25

Cyfathrebu . . . 25

Gwneud newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau . . . 26

Cymesuredd ac Amseroldeb . . . 26

Cyngor a Chanllawiau . . . 27

Hyfforddiant . . . 27

Dysgu o gwynion . . . 27

Pan fydd trefniadau rhwng darparwyr partner yn newid yn sylweddol neu'n dod i ben . . . 28

Newidiadau sylweddol arfaethedig neu derfynu partneriaeth . . . 28

Dod â phartneriaeth i ben heb ei gynllunio . . . 29

**Adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddogfennau . . . 31**

# Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1: Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA . . . . . 11

Astudiaeth Achos 2: Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA . . . . . 12

Astudiaeth Achos 3: Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA . . . . . 12

Astudiaeth Achos 4: Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA . . . . . 13

Astudiaeth Achos 5: Mae'r partner dyfarnu yn aelod o'n Cynllun ond nid yw partner(iaid) cyflwyno'n aelodau o'n Cynllun . . . . . 16

Astudiaeth Achos 6: Mae'r partner cyflwyno'n aelod o'n Cynllun ond nid yw partner(iaid) dyfarnu'n aelodau o'n Cynllun . . . . . 17

Astudiaeth Achos 7: Mathau eraill o bartneriaeth . . . . . 19

Astudiaeth Achos 8: Mathau eraill o bartneriaeth . . . . . 19

Astudiaeth Achos 9: Mathau eraill o bartneriaeth . . . . . 20

# Rhagarweiniad

1. Mae'r Fframwaith Arfer Da yn nodi egwyddorion craidd ac arfer da gweithredol. Yr egwyddorion craidd yw bod prosesau da yn hygyrch a chlir; teg, annibynnol a chyfrinachol; cynhwysol; hyblyg, cymesur ac amserol; a'u bod yn gwella profiad myfyrwyr. Mae'r egwyddorion craidd hyn yn berthnasol i'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, ynghylch Darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill.

2. Mae llawer o ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr yn darparu cyfleoedd dysgu mewn partneriaeth ag un neu fwy o ddarparwyr neu sefydliadau dyfarnu eraill. Mae sawl math o drefniadau partneriaeth, a gall modelau darparu newydd ddod i'r amlwg. Yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, rydym yn cyfeirio at rai enghreifftiau o fathau o bartneriaethau, megis dyfarniadau ar y cyd, cymwysterau a ddyfernir gan un darparydd ("y partner dyfarnu") lle caiff yr addysgu ei gyflwyno gan ddarparydd arall ("y partner cyflwyno") , prentisiaethau, a hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ysgol.

3. Mae rhai partneriaethau'n gweithredu o fewn Cymru a Lloegr, ac mae rhai partneriaethau'n cynnwys un neu fwy o bartneriaid tramor ("trefniadau trawswladol"). Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i drefniadau domestig a thrawswladol. Yn y canllawiau hyn, mae "trefniadau trawswladol" yn cynnwys trefniadau gyda darparwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, oherwydd nid yw ein cylch gwaith yn ymestyn i ddarparwyr yn yr awdurdodaethau hynny.

4. Nid yw'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yn darparu canllawiau penodol ar gyfer pob math o bartneriaeth. Mae'n nodi canllawiau ac egwyddorion ar gyfer mynd i'r afael â phryderon myfyrwyr mewn trefniadau partneriaeth, a bydd angen i ddarparwyr addasu'r rhain i'w cyd-destun a threfniadau partneriaeth penodol eu hunain. Mae'r canllawiau ym mharagraffau 9 - 70 wedi'u strwythuro o dan gyd-destunau eang a gwahanol fathau o bartneriaethau, fel y gall darparwyr edrych ar y wybodaeth sydd fwyaf perthnasol i'w trefniadau partneriaeth hwy. Mae'r egwyddorion a nodir o baragraff 71 ymlaen yn berthnasol i unrhyw gyd-destun neu fodel partneriaeth.

5. Ffocws yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yw sut mae darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth i ymdrin â chwynion ac apeliadau gan fyfyrwyr, yn ogystal â phrosesau mewnol eraill. Nid yw wedi'i bwriadu i gwmpasu pob agwedd ar ddarpariaeth trwy bartneriaeth, sydd y tu allan i'n cylch gwaith.

6. Yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da rydym yn defnyddio'r ymadrodd "cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill" i ddisgrifio unrhyw brosesau sy'n arwain at benderfyniadau ynghylch myfyrwyr neu grwpiau o fyfyrwyr penodol sy'n effeithio ar eu hastudiaethau, ac a allai arwain at Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Mae hyn yn cynnwys prosesau y gall myfyriwr eu cychwyn, er enghraifft, gwneud cwyn, cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad academaidd, gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol o amgylchiadau personol, adrodd am bryder ynghylch ymddygiad person arall. Mae hefyd yn cynnwys prosesau y gellir eu cychwyn gan un neu fwy o ddarparwyr mewn perthynas â myfyriwr unigol, er enghraifft ymchwiliadau ynghylch addasrwydd i ymarfer, ymchwiliadau i gamymddygiad academaidd, ymchwiliadau i gamymddwyn anacademaidd new brosesau cymorthar gyfer astudio.

7. Yn y Fframwaith Arfer Da mae'r term "myfyrwyr" yn cynnwys myfyrwyr, prentisiaid, dysgwyr a'r rhai sydd dan hyfforddiant.

8. Rydym wedi datblygu'r Fframwaith Arfer Da i'w ddefnyddio gan ddarparwyr sy'n aelodau o'n Cynllun, a darparwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth ag o leiaf un aelod o'n Cynllun. Gall darparwyr nad ydynt yn aelodau neu nad ydynt yn gweithio mewn partneriaeth ag aelodau ddewis gweithredu'r egwyddorion a'r canllawiau a nodir yn y Fframwaith Arfer Da, ond ni ddylent gyfeirio myfyrwyr i wneud cwynion i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA). Mae rhestr o aelodau presennol ar gael ar ein gwefan.

# Ystyried cyd-destun gweithredol partneriaeth

## Cyfraith ddomestig a rheoleiddio

9. Dylai darparwyr sy'n gweithio mewn partneriaethau fod yn ymwybodol o'r gwahanol gyfundrefnau cyfreithiol a rheoleiddiol a all fod yn berthnasol wrth gynllunio a gweithredu prosesau mewnol i fynd i'r afael â phryderon myfyrwyr. Bydd ystyriaethau cyfreithiol yn cynnwys, er enghraifft, deddfwriaeth cydraddoldeb a chyfraith defnyddwyr, yn ogystal â deddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol ag addysg. Gall gofynion rheoliadol ar un neu fwy o ddarparwyr sy'n gweithio mewn trefniant partneriaeth gael eu gosod gan gyrff yng Nghymru a Lloegr, er enghraifft:

- Y Swyddfa Myfyrwyr (OfS). Y Swyddfa Myfyrwyr yw'r rheoleiddiwr ar gyfer addysg uwch yn Lloegr. Mae'r Swyddfa Myfyrwyr yn gosod amodau cofrestru ar y darparwyr sydd ar eu Cofrestr.
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch yng Nghymru. Mae CCAUC yn darparu cyllid ar gyfer addysgu, ymchwil ac arloesi mewn addysg uwch, ac yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch. O fis Ebrill 2024, caiff CCAUC ei ddisodli gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY), a fydd yn gyfrifol am strategaeth, cyllido a throsolwg o'r sector trydyddol. Bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu.
- Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual). Mae Ofqual yn rheoleiddio cymwysterau, arholiadau ac asesiadau yn Lloegr. Mae Ofqual yn sefydlu ac yn cynnal cofrestr o gymwysterau rheoleiddiedig, ynghyd â fframwaith sy'n cynnwys amodau cydnabyddiaeth cychwynnol a pharhaus y mae'n rhaid i Sefydliadau Dyfarnu (SD) a reoleiddir gydymffurfio â nhw. O'r herwydd, mae Ofqual yn rheoleiddio'r SD hynny sy'n dyfarnu cymwysterau Addysg Uwch ar reoleiddir.
- Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru.
- Yr Adran Addysg (DfE) yw'r adran weinidogol sy'n gyfrifol am wasanaethau ac addysg plant, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, ysgolion, polisi addysg uwch ac addysg bellach, prentisiaethau a sgiliau ehangach yn Lloegr.
- Mae gan rai Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs) rôl uniongyrchol mewn rheoleiddio ac achredu cyrsiau sy'n arwain at gymhwyster mewn proffesiwn a reoleiddir. Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn cyhoeddi gwybodaeth ddefnyddiol am PSRBs a'u rolau. Mae enghreifftiau o PSRBs yn cynnwys y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, a'r Bwrdd Cofrestru Penseiri.

10. Gall y gofynion rheoleiddio a osodir gan y cyrff hyn neu gyrff eraill fod yn berthnasol i holl weithgareddau'r darparydd, neu i rai rhannau yn unig. Weithiau gall y cyrff rheoleiddio nodi na all darparydd ddirprwyo cyfrifoldeb am dasgau neu rolau penodol, er enghraifft sicrhau ansawdd.

11. Mae llawer o'n haelodau'n cael eu rheoleiddio gan y Swyddfa Myfyrwyr neu CCAUC/CADY, ond mae ein haelodaeth hefyd yn cynnwys darparwyr yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan y Swyddfa Myfyrwyr na CCAUC/CADY. Gall y darparwyr hynny gyfeirio at y gofynion a osodir gan reoleiddwyr os ydynt am wneud hynny, ond nid yw hyn yn orfodol ar gyfer darparwyr na chânt eu rheoleiddio.

12. Nid yw SDA yn rheolydd, ond rydym yn rhan o'r dirwedd reoleiddio ehangach. Os bydd gwrthdaro rhwng gofyniad rheoliadol a'n canllawiau, dylai darparwyr weithredu mewn ffordd sy'n eu galluogi i fodloni eu rhwymedigaethau rheoleiddio. Rydym yn croesawu deialog ag unrhyw barti sy'n pryderu y gallai gwrthdaro fodoli.

13. Mae aelodaeth o'n Cynllun yn rhwymedigaeth statudol a rheoliadol i lawer o ddarparwyr. Gall darparwyr eraill wneud cais i ymuno â'n Cynllun yn wirfoddol. Disgwyliwn i bob aelod o'n Cynllun gydymffurfio â'n Rheolau ac i weithredu'r egwyddorion a'r canllawiau a nodir yn ein Fframwaith Arfer Da, gan gynnwys pan fyddant yn gweithio gyda phartneriaid nad ydynt yn aelodau. Ni chaiff aelodau o'n Cynllun atal myfyrwyr rhag cael mynediad at adolygiad annibynnol trwy ddirprwyo cyfrifoldeb am gwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill i bartner nad yw'n aelod.

14. Mae'n bosibl y bydd rhai myfyrwyr yn gallu codi eu pryderon gyda sefydliadau eraill fel y rhai a restrir uchod (paragraff 9), y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol (IfATE), yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA), neu gorff datrys anghydfod amgen. Gall y myfyrwyr hynny gadw eu hawl i gwyno i SDA hyd yn oed os ydynt wedi dewis defnyddio llwybr arall i godi eu pryderon. Os yw cwyn myfyriwr wedi cael ei hystyried gan gorff arall a bod y myfyriwr wedyn yn dod â'r un gŵyn atom ni, byddwn yn penderfynu a allwn ei hadolygu, gan ystyried y gweithdrefnau perthnasol, y ffaith bod gan y myfyriwr ddewis o ble i fynd â'i gŵyn, a hefyd bod y myfyriwr eisoes wedi cwyno i gorff allanol arall.

## Cyfraith a rheoleiddio rhyngwladol

15. Mae llawer o wahanol fodelau darparu addysg uwch dramor. Darperir rhywfaint o'r addysg honno'n gyfangwbl gan ddarparwyr o Gymru neu Loegr sy'n gweithredu mewn lleoliad tramor heb ddarparydd partner. O dan y trefniadau hyn dylai'r darparydd o Gymru neu Loegr fel arfer gyflawni ei weithdrefnau'n lleol i fynd i'r afael â chwynion ac apeliadau myfyrwyr a phrosesau mewnol eraill. Gall myfyrwyr hefyd gael eu cyfeirio at ffynonellau cymorth lleol. Mae gan y darparydd o Gymru neu Loegr yr un cyfrifoldebau am gwynion, apeliadau a materion eraill y myfyrwyr hyn ag sydd ganddynt am eu myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru neu Loegr. Os yw'n aelod o'n Cynllun, dylai'r darparydd o Gymru neu Loegr gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau pan fydd ei brosesau wedi dod i ben.

16. Yn aml bydd y ddarpariaeth dramor yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth ag un neu fwy o bartneriaid trawswladol. Mae'r canllawiau a nodir isod (paragraffau 41-57) yn berthnasol i'r mathau hyn o bartneriaethau rhyngwladol. Mae'n bwysig nodi'n glir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr beth yw rôl pob partner mewn cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill. Dylai darparwyr sicrhau bod marchnata a deunyddiau eraill ar gyfer myfyrwyr yn glir ac yn gywir. Os yw gwybodaeth gan ddarparydd yn arwain myfyriwr i gredu'n rhesymol nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng y prosesau sy'n berthnasol i fyfyriwr yng Nghymru neu Loegr a'r rhai sy'n berthnasol i fyfyriwr mewn lleoliad tramor, bydd hyn yn sefydlu disgwyliad y gall y myfyriwr ddod â chŵyn atom ni. Os yw'r darparydd o Gymru neu Loegr yn aelod o'n Cynllun a'i fod yn delio ag unrhyw gamau o gŵyn, apêl academaidd neu broses fewnol arall, yna mae'n debygol y bydd gan fyfyrwyr yr hawl i ddod â chwyn atom.

17. Bydd angen i ddarparwyr hefyd ystyried gofynion cyfreithiol ehangach a gwahanol gyd-destunau diwylliannol wrth weithio'n rhyngwladol i gynllunio a gweithredu gweithdrefnau priodol. Gall hyn gynnwys ystyried materion megis y gofynion tystiolaethol a'r iaith/ieithoedd y gellir eu defnyddio mewn gweithdrefnau ymdrin â chwynion. Gall fod gan wledydd eraill eu sicrwydd ansawdd eu hunain a/neu eu trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr. Dylai darparwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n gweithio fel rhan o bartneriaethau mewn gwledydd eraill weithio gyda'u partneriaid tramor i sefydlu sut mae'r gofynion hynny'n cyd-fynd â gofynion domestig.

18. Os yw rheoliadau yn y wlad neu'r dalaith dramor yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gael mynediad at reoleiddiwr allanol neu sefydliad ombwds yn y wlad neu'r dalaith honno, yna mater i'r darparwyr yw penderfynu sut y byddai'r trefniadau hynny'n cyd-fynd â hawl y myfyrwyr i gyflwyno cwyn i ni am faterion sy'n gyfrifoldeb y darparydd yng Nghymru neu Loegr.

19. Ni fydd bodolaeth llwybr i gwyno i reoleiddiwr allanol neu sefydliad ombwds mewn gwlad neu dalaith arall fel arfer yn dileu hawl y myfyriwr i ddefnyddio ein Cynllun. Fel arfer byddwn yn disgwyl i'r darparydd yng Nghymru neu Loegr sy'n aelod o'n Cynllun gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd ei weithdrefnau mewnol. Os bydd y myfyriwr yn dod â chŵyn atom, byddwn yn penderfynu a allwn ei hadolygu o dan Reolau ein Cynllun. Byddwn yn ystyried unrhyw gamau a gymerwyd i ddatrys y gŵyn o dan broses reoliadol arall neu broses datrys anghydfod amgen wrth wneud ein penderfyniad

# Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA

20. Pan fo'r holl bartneriaid mewn trefniant partneriaeth yn aelodau o'n Cynllun, gall myfyriwr ddod â chwyn atom am yr hyn y mae unrhyw bartner wedi'i wneud neu heb ei wneud. Er y bydd un partner wedi cyhoeddi'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, efallai y byddwn yn ystyried yr hyn y mae pob un o'r partneriaid wedi'i wneud neu heb ei wneud, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos.

21. Weithiau gall myfyriwr ddod â chŵyn atom am un partner, ond rydym yn penderfynu mai partner arall oedd yn gyfrifol am y mater y cwynwyd amdano. Yn yr achos hwnnw, efallai y byddwn yn ystyried bod y gŵyn yn ymwneud â'r partner arall. Weithiau mae'n anodd iawn datrys pa bartner sy'n gyfrifol am wahanol rannau o gŵyn myfyriwr. Byddwn yn penderfynu a ddylid ceisio gwybodaeth gan un neu'r ddau bartner. Mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu cadarnhau cwyn y myfyriwr am y naill bartner a'r llall neu'r holl bartneriaid ac argymell datrysiad i'r myfyriwr, ac yna disgwyl i'r partneriaid gydweithio i gyflawni'r datrysiad hwnnw. Byddwn bob amser yn rhoi cyfle i'r darparydd yr ydym yn gwneud yr Argymhellion iddo ymateb i'r gŵyn cyn i ni gwblhau'r Argymhellion).

## Trefniadau sy'n ymwneud â darparydd dyfarnu neu sefydliad dyfarnu a phartner cyflwyno

22. Mewn rhai trefniadau, mae partner cyflwyno neu bartner addysgu yn cyflwyno'r cyfan neu ran o'r addysgu, ynghyd â chyfleoedd dysgu eraill sy'n arwain at gymhwyster, neu ran o gymhwyster, a ddyfernir gan ddarparydd neu sefydliad dyfarnu arall.

23. Mae'n arfer da i'r cytundeb rhwng y partneriaid nodi pa bartner sy'n gyfrifol am weithrediad pob un o'i drefniadau ar gyfer cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill, ac i ba raddau y mae pob partner yn cadw trosolwg o ddeilliannau'r prosesau mewnol hynny. Mae gan bartneriaid ddisgresiwn i ystyried y model gweithredol mwyaf priodol ar gyfer eu cyd-destun (gweler paragraffau 9–19).

24. Fel arfer bydd partner dyfarnu'n gyfrifol am unrhyw bryderon sydd gan fyfyrwyr yn ymwneud ag ansawdd a safonau ei ddyfarniadau. Bydd partner dyfarnu fel arfer yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol mewn perthynas ag apeliadau academaidd myfyrwyr (gan gynnwys heriau i benderfyniadau ynghylch dilyniant a dosbarthiad graddau) a bydd fel arfer yn cyhoeddi'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn yr achosion hynny.

25. Mae partner dyfarnu hefyd yn debygol o fod â diddordeb sylweddol mewn penderfyniadau a wneir o dan brosesau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â sut mae myfyrwyr yn ennill cymwysterau. Gall hyn gynnwys:

- penderfyniadau ynglŷn â strwythur a chynnwys asesiadau, er enghraifft, penderfyniadau ynghylch pa addasiadau y mae'n rhesymol eu gwneud i asesiad ar gyfer myfyriwr anabl.
- penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau am ystyriaeth ychwanegol neu benderfyniadau'n ymwneud â chamymddwyn academaidd.
- diddordeb mewn cwynion yn ymwneud ag ansawdd y cyfleoedd addysgu a dysgu a ddarperir gan y partner cyflwyno.

Bydd union natur y diddordeb hwn yn amrywio yn dibynnu ar eich cyd-destun.

26. Gall partneriaid dyfarnu ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwilio i faterion o'r fath, a/neu gallant ymwneud yn uniongyrchol â gwneud penderfyniadau o dan y prosesau mewnol perthnasol. Fel arall, efallai na fydd partneriaid dyfarnu yn rhan o'r ymchwiliad neu'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch pryderon myfyrwyr unigol, ond gallant ddewis cadw trosolwg ar lefel ehangach. Yn dibynnu ar y cyd-destun, gall fod yn briodol i'r partner dyfarnu neu'r partner cyflwyno gyhoeddi'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

27. Mae'n gyffredin i bartneriaid cyflawni gymryd cyfrifoldeb am ymdrin â chwynion am unrhyw agwedd arall ar brofiad y myfyriwr nad yw'n ymwneud ag ansawdd a safonau dyfarniad academaidd. Er enghraifft, cwynion am lety, darpariaeth gwasanaethau lleol megis arlwyo, mynediad i adeiladau a chyfleusterau eraill, neu drefniadau amserlennu. Fel arfer mae gan bartneriaid cyflwyno berthynas fwy uniongyrchol â myfyrwyr ac yn aml nhw sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â phrosesau cymorth ar gyfer astudio a darparu cymorth lles arall.

28. Lle bo'r partner cyflwyno'n gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â chwynion, apeliadau neu brosesau mewnol eraill, bydd hynny'n nodi diwedd y broses fewnol at ein dibenion ni. Dylai'r partner cyflwyno wedyn gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

29. Os yw'r partneriaid wedi penderfynu y gall myfyrwyr uwchgyfeirio'r mater i'r partner dyfarnu, yna ni ddylai'r partner cyflwyno fel arfer gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Dylai'r partner cyflwyno esbonio i'r myfyriwr sut y gall fynd â'r mater ymhellach gyda'r partner dyfarnu. Dylai'r darparydd dyfarnu gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd ei brosesau mewnol.

## Astudiaeth Achos 1: Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA

Mae myfyriwr yn gwneud apêl academaidd i bartner cyflwyno. Mae'r partner cyflwyno'n gwrthod yr apêl academaidd gan nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer apelio. Cam olaf y weithdrefn apeliadau academaidd yw adolygiad gan y partner dyfarnu. Mae'r partner dyfarnu yn penderfynu bod y broses apêl academaidd wedi'i chynnal yn deg a bod y partner cyflwyno'n gywir i wrthod yr apêl gan nad oedd yn bodloni'r meini prawf. Mae'r partner cyflwyno'n cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Os bydd y myfyriwr yn dod â'i gŵyn atom ni, byddwn yn gallu edrych ar yr hyn y mae'r partner cyflwyno a'r partner dyfarnu wedi'i wneud.

## Astudiaeth Achos 2: Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA

Mae myfyriwr yn astudio gyda phartner cyflwyno ar gyfer gradd a ddyfernir gan bartner dyfarnu. Mae'r Broses Gwyno yn nodi y dylid codi pob cwyn gyda'r partner cyflwyno yn y lle cyntaf. Mae'r myfyriwr yn cwyno i'r darparydd cyflwyno am ddiffyg atgyweirio yn ei lety myfyrwyr.

O dan y cytundeb rhwng y darparwyr, mae'r partner cyflwyno yn gyfrifol am ystyried cwynion am agweddau ar brofiad myfyrwyr nad ydynt yn ymwneud ag ansawdd na safonau'r dyfarniad academaidd. Mae'r partner cyflwyno'n ystyried ac yn cadarnhau'r gŵyn yn rhannol yn y cam cychwynnol ac yn cadarnhau ei benderfyniad yn y cam adolygu. Mae'r partner cyflwyno'n cynnig iawndal ariannol i'r myfyriwr ac yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Mae'r partner cyflwyno'n darparu adroddiad yn rheolaidd i'r partner dyfarnu ynghylch pob cwyn y mae wedi ymdrin â hi.

Mae'r myfyriwr yn gallu dod â'i gŵyn am benderfyniad y partner cyflwyno i ni.

## Astudiaeth Achos 3: Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA

Mae myfyriwr yn cyflwyno darn o waith i'w asesu i'r partner cyflwyno. Mae'r partner cyflwyno'n amau bod y gwaith wedi'i lên-ladrata. Mae'r cytundeb rhwng y partner dyfarnu a'r partner cyflwyno'n nodi mai'r partner cyflwyno fydd yn gyfrifol am gynnal ymchwiliadau i achosion o gamymddwyn academaidd, a bydd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r partner dyfarnu ynghylch maint a math y camymddwyn academaidd y mae'n ymchwilio iddo.

Mae'r partner cyflwyno'n cynnal ymchwiliad o dan ei broses camymddwyn academaidd. Mae'n penderfynu y bu camymddwyn academaidd ac yn gosod marc o sero ar y gwaith a aseswyd fel cosb. Mae'r myfyriwr yn apelio yn erbyn y canfyddiad a'r gosb i'r partner cyflwyno.

Mae'r partner cyflwyno'n gwrthod yr apêl ac yn cyhoeddi llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Mae'r myfyriwr yn cwyno i ni, a gallwn adolygu gweithredoedd y partner cyflawni.

Bu'r myfyriwr yn aflwyddiannus mewn rhai asesiadau eraill, ac mae'r Bwrdd Arholi sy'n cyfarfod ar ddiwedd y flwyddyn academaidd i ystyried dilyniant myfyrwyr yn penderfynu na all y myfyriwr symud ymlaen i'r flwyddyn astudio nesaf. Mae'r myfyriwr yn cyflwyno apêl academaidd i herio'r penderfyniad hwn gan ddadlau bod effaith y gosb a osodwyd gan y partner cyflwyno wedi arwain at sefyllfa annheg. O dan y cytundeb partneriaeth, mae'r partner cyflwyno'n cwblhau cam apêl ffurfiol y broses, ac yna mae gan fyfyrwyr hawl i ofyn am adolygiad gan y partner dyfarnu.

Pan fydd y myfyriwr yn cwblhau'r broses honno, mae'r partner dyfarnu'n cyhoeddi llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Mae'r myfyriwr yn cwyno i ni, ac rydym yn dechrau ein hadolygiad trwy ystyried gweithredoedd y partner dyfarnu. Gallem wahodd y partner cyflwyno i gyfrannu rhywfaint o wybodaeth at ein hadolygiad os byddwn yn penderfynu y byddai hynny'n ddefnyddiol i'n hadolygiad o'r gŵynnt.

## Darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon mewn Ysgol (SCITTs)

30. Mae llawer o SCITTs yn gweithio gyda phrifysgol bartner i gynnig cyfle i'w hathrawon dan hyfforddiant (hyfforddeion) astudio ar gyfer Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) a ddyfernir gan y brifysgol. Pan fo'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, mae'r SCITT yn gyfrifol am argymell yr hyfforddai ar gyfer dyfarniad Statws Athro Cymwys (SAC). Fel arfer caiff cynnwys y cwrs TAR ei gyflwyno a'i oruchwylio gan y brifysgol sy'n dyfarnu, er enghraifft trwy ddarlithoedd neu asesiadau ymarferol.

31. Mewn llawer o achosion bydd y SCITT hefyd yn sefydliad sy'n cyflwyno cymwysterau ac yn aelod ar wahân o'n Cynllun. Pan fo'r SCITT yn aelod, gall y rhai sy'n dilyn cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon (HCA) droi at SDA, gan gynnwys y rhai sydd ar lwybr Asesu yn unig.

32. Mae'n bosibl y bydd yr hyfforddeion yn gallu dod â chŵyn atom am unrhyw beth y mae SCITT wedi'i wneud neu heb ei wneud, ac unrhyw beth y mae'r darparydd sy'n dyfarnu eu TAR (os oes un) wedi'i wneud neu heb ei wneud.

33. Gall darparwyr HCA, gan gynnwys SCITTs, ffurfio partneriaethau i gyflwyno darpariaeth HCA, yn aml gyda phartneriaid arweiniol ac ysgolion ar gyfer lleoliadau profiad gwaith. Yn Lloegr bydd y darparydd sydd wedi'i achredu gan yr Adran Addysg yn aelod o'n Cynllun. Dylai'r cytundeb rhwng y gwahanol bartneriaid nodi cyfrifoldebau pob partner.

34. Mae'n bosibl y bydd gan hyfforddai gŵyn am rywbeth sydd wedi digwydd yn yr ysgol lle cynigir y profiad gwaith. Y darparydd achrededig sy'n gyfrifol yn y pen draw am bob agwedd ar hyfforddiant, darpariaeth ac ansawdd, a dylai wneud yn siŵr bod gan yr ysgolion hyn brosesau teg ar waith, a bod ganddo ei brosesau mewnol ei hun i'r hyfforddai eu dilyn os na ellir datrys y mater yn lefel yr ysgol.

35. Os mai'r SCITT sy'n gyfrifol am y gŵyn, dylai'r SCITT fel arfer gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd ei weithdrefnau mewnol, a dylai'r hyfforddai allu cwyno'n uniongyrchol i ni heb orfod mynd i'r brifysgol sy'n dyfarnu TAR yn gyntaf.

36. Os yw'r partneriaid wedi penderfynu y gall hyfforddeion uwchgyfeirio'r mater i'r brifysgol sy'n dyfarnu TAR, yna ni ddylai'r partner SCITT fel arfer gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Dylai'r SCITT esbonio i'r myfyriwr sut y gall fynd â'r mater ymhellach gyda'r partner dyfarnu. Dylai'r partner dyfarnu gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd ei brosesau mewnol.

### Astudiaeth Achos 4: Pan fydd yr holl sefydliadau mewn partneriaeth yn aelodau o Gynllun SDA

Mae hyfforddai yn astudio ar gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon a ddarperir gan SCITT. Mae hefyd yn astudio ar gyfer TAR a ddyfernir gan brifysgol.

Mae'r hyfforddai'n cwyno i'r SCITT am sut y trefnwyd asesiad arsylwi addysgu a gynhaliwyd gan diwtor prifysgol ac athro yn y SCITT. Mae'r SCITT a'r brifysgol sy'n dyfarnu TAR ill dau yn aelodau o Gynllun SDA. Dywed eu cytundeb partneriaeth y gall hyfforddeion uwchgyfeirio cwynion am y trefniadau ar gyfer asesiadau ymarferol ar y cyd i'r brifysgol os ydynt yn anfodlon ag ymateb y SCITT. Mae'r hyfforddai'n anghytuno ag ymateb y SCITT i'w gŵyn ac yn gofyn i'r brifysgol ystyried ei bryderon. Mae'r brifysgol yn gwrthod cwyn yr hyfforddai ac yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

## Trefniadau lle mae'r naill bartner a'r llall yn bartneriaid dyfarnu

37. Mae pob darparydd yng Nghymru a Lloegr sydd â phwerau dyfarnu graddau yn aelodau o Gynllun SDA. Mae rhai darparwyr sydd â phwerau dyfarnu graddau yng Nghymru a Lloegr yn cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu, gan arwain er enghraifft at ddyfarniadau ar y cyd, dyfarniadau dwbl neu luosog, dyfarniadau rhyngosodedig, dyfarniadau deuol neu ddyfarniadau cydamserol. Mae yna fathau eraill o drefniadau, a gall modelau darparu newydd ddod i'r amlwg.

38. Mae'n arfer da i'r cytundeb rhwng y partneriaid nodi pa ddarparydd sy'n gyfrifol am weithredu ei brosesau cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill o ddydd i ddydd, ac i ba raddau y mae pob partner yn cadw trosolwg o ddeilliannau'r prosesau hynny.

39. Mae gan ddarparwyr ddisgresiwn i ystyried pa fodel gweithredol sydd fwyaf priodol ar gyfer eu cyd-destun. Mae'n bwysig ei gwneud yn glir i fyfyrwyr pa bartner fydd yn gyfrifol am ymateb i gwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill.

40. Dylai'r partner sy'n gyfrifol am gam olaf proses fewnol gyhoeddi'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i alluogi'r myfyriwr i ddod â'i gŵyn atom ni os yw'n dymuno gwneud hynny. Pan fyddwn yn derbyn cwyn, efallai y byddwn yn adolygu'r ffordd y mae'r naill neu'r llall wedi ymdrin â'r broses os yw hynny'n berthnasol i'r gŵyn. Lle mai dim ond un darparydd mewn trefniant partneriaeth sy'n aelod o'n Cynllun, dim ond yr hyn y mae'r partner hwnnw wedi'i wneud neu heb ei wneud y caiff myfyriwr ddod â chwyn atom yn ei gylch.

# Pan nad yw'r darparwyr mewn partneriaeth i gyd yn aelodau o'n Cynllun

41. Lle mai dim ond un darparydd mewn trefniant partneriaeth sy'n aelod o'n Cynllun, dim ond yr hyn y mae'r partner hwnnw wedi'i wneud neu heb ei wneud y caiff myfyriwr ddod â chwyn atom yn ei gylch.

42. Dim ond darparwyr sy'n aelodau o'n Cynllun all gyhoeddi Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau yn dweud wrth fyfyrwyr bod ganddynt yr hawl i ddod â chŵyn atom ni. Mae'n bosibl mai'r partner nad yw'n aelod o'n Cynllun fydd yn cyflawni cam olaf cwyn, apêl neu broses fewnol arall. Mae'n rhaid i ddarparwyr sy'n aelodau o'n Cynllun sicrhau o hyd bod myfyrwyr yn cael gwybod am eu hawl i ddefnyddio ein Cynllun trwy gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Mae'n arfer da nodi unrhyw agweddau ar y broses sy'n gyfrifoldeb y partner nad yw'n aelod yn unig, a nodi efallai na fydd SDA yn gallu rhoi sylw i'r rhain. Gall hyn helpu'r myfyriwr i benderfynu a ddylid dod â chŵyn atom ni, a bydd yn ein cynorthwyo i wneud penderfyniad ynghylch yr hyn y gallwn neu na allwn ei adolygu o dan Reolau ein Cynllun.

## Mae'r partner dyfarnu yn aelod o'n Cynllun ond nid yw partner(iaid) cyflwyno'n aelodau o'n Cynllun

43. Enghraifft o'r trefniant hwn yw lle mae darparydd partner nad yw yng Nghymru na Lloegr yn cyflwyno cyfleoedd dysgu sy'n arwain (neu'n cyfrannu) at ddyfarniad gan ddarparydd yng Nghymru neu Loegr.

44. Gall myfyriwr ddod â chŵyn atom am yr hyn y mae'r partner dyfarnu wedi'i wneud neu heb ei wneud.

45. Bydd myfyrwyr sy'n astudio gyda'r partner cyflwyno ond yn gallu dod â chŵyn atom am faterion yr oedd y partner dyfarnu'n gyfrifol amdanynt o dan unrhyw ofynion rheoleiddiol a'i drefniant gyda'r partner cyflwyno. Ni ddylai partneriaid cyflwyno nad ydynt yn aelodau o'n Cynllun gyhoeddi Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau.

46. Dylai partneriaid dyfarnu sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio gyda phartner cyflwyno'n cael gwybodaeth glir, gywir ac amserol am gwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill y mae gan y partner dyfarnu rôl ynddynt. Lle darperir y wybodaeth hon i fyfyrwyr yn uniongyrchol gan y partner cyflwyno, mae'n arfer da i'r partner dyfarnu adolygu'r wybodaeth o bryd i'w gilydd i wneud yn siŵr ei bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gywir.

47. Os bydd myfyriwr yn ceisio cwyno i'r partner dyfarnu am rywbeth sy'n gyfrifoldeb y partner cyflwyno, dylai'r partner dyfarnu gyfeirio'r myfyriwr at weithdrefn gwyno'r partner cyflwyno. Fel arfer bydd yn ddigon i roi gwybodaeth i'r myfyriwr am sut i gwyno i'r partner cywir, ac fel arfer ni fydd angen cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn nodi na all y partner dyfarnu ystyried pryder y myfyriwr. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae myfyriwr yn anghytuno'n sylfaenol â'r penderfyniad ynghylch cylch gwaith y darparydd dyfarnu, gallai fod yn ddefnyddiol cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Gallem wedyn adolygu cwyn am benderfyniad y darparydd dyfarnu i beidio â derbyn y gŵyn.

### Astudiaeth Achos 5: Mae'r partner dyfarnu yn aelod o'n Cynllun ond nid yw partner(iaid) cyflwyno'n aelodau o'n Cynllun

Mae darparydd yn Lloegr, a phrifysgol yn UDA, wedi datblygu rhaglen gydweithredol. Mae myfyrwyr yn astudio yn Lloegr ac yn UDA am yn ail, ac ar ôl cwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus, yn derbyn gradd gan y darparydd yn Lloegr.

Tra'n astudio yn UDA mae myfyriwr yn cyflwyno cwyn am ansawdd yr addysgu ar y cwrs, y mae'r partner dyfarnu yn ei hystyried. Mae'r myfyriwr hefyd yn cwyno am safon yr arlwyo, sy'n cael ei gyfeirio at y brifysgol yn UDA am ymateb. Mae hyn yn unol â'r cytundeb rhwng y darparwyr, ac mae'n caniatáu i'r myfyriwr gwyno i'r partner dyfarnu ynghylch materion y mae'n gyfrifol amdanynt o dan unrhyw ofynion rheoliadol.

Ar ddiwedd y Broses Gwyno, caiff y myfyriwr Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau ynghylch yr agweddau ar y gŵyn y mae'r partner dyfarnu wedi'u hystyried.

## Mae'r partner cyflwyno'n aelod o'n Cynllun ond nid yw partner(iaid) dyfarnu'n aelodau o'n Cynllun

48. Enghraifft o'r trefniant hwn yw ble mae darparwyr yng Nghymru neu Loegr yn cyflwyno cyrsiau sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster gan bartner nad yw yng Nghymru na Lloegr, fel arfer un sydd â phwerau dyfarnu graddau yn ei awdurdodaeth ei hun.

49. Enghraifft arall o'r trefniant hwn yw lle mae darparwyr yng Nghymru neu Loegr yn cyflwyno cyrsiau addysg uwch sy'n arwain at gymwysterau a ddyfernir gan sefydliad dyfarnu allanol a reoleiddir gan Ofqual (Lloegr) a/neu Gymwysterau Cymru neu gorff proffesiynol arall. Mae rhaglenni Tystysgrif Genedlaethol Uwch a Diploma Cenedlaethol Uwch a ddyfernir gan Pearson, a thystysgrifau a diplomâu a ddyfernir gan Gymdeithas y Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig yn enghreifftiau o hyn. Nid oes rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual neu Gymwysterau Cymru fod yn aelodau o'n Cynllun, ond gallant ymuno â'r Cynllun yn wirfoddol. (Lle mae'r sefydliad dyfarnu wedi ymuno â'n Cynllun yn wirfoddol, mae'r canllawiau ym mharagraffau 20-29 uchod yn berthnasol).

50. Weithiau mae mwy nag un partner cyflwyno'n ymwneud â chyflwyno cyfleoedd dysgu sy'n arwain at ddyfarniad a wneir gan sefydliad dyfarnu allanol. Yn yr adran hon gallai'r term "partner cyflwyno" gyfeirio at un neu'r ddau ohonynt, yn dibynnu ar y cyd-destun.

51. Mae'r partner dyfarnu fel arfer yn gyfrifol am ansawdd a safonau cyffredinol y cymwysterau y mae'n eu dyfarnu, ac felly mae'n debygol o fod â rhywfaint o gyfrifoldeb am ymdrin â chwynion am faterion safonau academaidd ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr yn y math hwn o drefniant. Mae'n bosibl y bydd gan bartneriaid cyflwyno rywfaint o gyfrifoldeb hefyd am ansawdd a safonau'r cwrs.

52. Gall myfyriwr ddod â chwyn atom am yr hyn y mae'r partner cyflwyno wedi'i wneud neu heb ei wneud. Ond ni fydd myfyrwyr yn gallu cwyno wrthym am faterion yr oedd y partner dyfarnu'n gyfrifol amdanynt o dan ei drefniant gyda'r partner cyflwyno. Ni ddylai partneriaid dyfarnu nad ydynt yn aelodau o'n Cynllun gyhoeddi Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau.

53. Os yw myfyriwr yn ceisio cwyno i'r partner cyflwyno am rywbeth sy'n gyfrifoldeb y partner dyfarnu, dylai'r partner cyflwyno gyfeirio'r myfyriwr at weithdrefn gwyno'r partner dyfarnu. Fel arfer bydd yn ddigon i roi gwybodaeth i'r myfyriwr am sut i gwyno i'r partner cywir, ac fel arfer ni fydd angen cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn nodi na all y partner dyfarnu ystyried pryder y myfyriwr. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae myfyriwr yn anghytuno'n sylfaenol â'r penderfyniad

ynghylch cylch gwaith y darparydd cyflwyno, gallai fod yn ddefnyddiol cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Yna gallem adolygu cwyn am benderfyniad y darparydd cyflwyno i beidio â derbyn y gŵyn.

54. Pan nad yw'r partner dyfarnu yn aelod o'n Cynllun, mater iddynt hwy fydd hysbysu'r myfyriwr o'u proses gwyno ac unrhyw gamau nesaf, er enghraifft ar gyfer sut i gwyno i'w rheolydd os yw'n berthnasol.

55. Dylai partner cyflwyno gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau pan nad oes unrhyw gamau pellach y gall y myfyriwr eu cymryd i fynd i'r afael â'u pryderon yn fewnol ynghylch materion y mae'n gyfrifol amdanynt. Efallai y bydd angen i'r partner cyflwyno yng Nghymru neu Loegr gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd proses hyd yn oed os nad yw wedi cynnal y broses honno.

56. Lle mae'r sefydliad dyfarnu'n cael ei reoleiddio gan Ofqual neu Gymwysterau Cymru mae yna dempled penodol ar gyfer Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau y gellir ei ddefnyddio.

57. Os bydd y myfyriwr yn cwyno i ni, byddwn yn gwirio a yw'r gŵyn yn rhywbeth y gallwn ei ystyried. Os yw'r gŵyn yn ymwneud â rhywbeth y mae'r partner cyflwyno'n gyfrifol amdano, er enghraifft sut y mae wedi cyflwyno'r cwrs, yna byddwn yn ei hadolygu, cyn belled nad yw fel arall yn anghymwys i'w hadolygu o dan ein Rheolau. Os byddwn yn penderfynu bod y gŵyn yn rhywbeth y mae'r partner dyfarnu'n gyfrifol amdano, er enghraifft ansawdd neu safonau cyffredinol y cymhwyster ei hun, byddwn yn dweud wrth y myfyriwr, a gallwn gyfeirio'r gŵyn at y partner dyfarnu.

## Astudiaeth Achos 6: Mae'r partner cyflwyno'n aelod o'n Cynllun ond nid yw partner(iaid) dyfarnu'n aelodau o'n Cynllun

Mae myfyriwr yn gwneud apêl academaidd i'r partner darparu ar sail amgylchiadau personol nad oedd wedi dweud wrth y partner cyflwyno amdanynt o'r blaen. O dan y cytundeb rhwng y partneriaid, y partner cyflwyno sy'n gyfrifol am asesu'r cais am ystyriaeth ychwanegol a, lle bo'n berthnasol, am wneud argymhelliad i'r partner dyfarnu ynghylch sut y caiff ei ystyried. Mae'r partner cyflwyno'n penderfynu nad oedd unrhyw reswm da i'r myfyriwr beidio â rhannu'r wybodaeth ar yr adeg berthnasol. Mae'r partner cyflwyno'n argymell na chaiff yr apêl ei chadarnhau oherwydd nad yw'r meini prawf wedi'u bodloni. Mae'r partner dyfarnu'n cadarnhau'r penderfyniad hwnnw ar y cam adolygu.

Mae'r partner cyflwyno'n cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (gan ei fod yn aelod o'n Cynllun) ar y sail nad oes unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd o dan ei weithdrefnau. Gall myfyriwr ddod â chwyn atom am y partner cyflwyno.

# Mathau eraill o bartneriaeth

## Prentisiaethau

58. Swydd gyda hyfforddiant i safonau diwydiant yw prentisiaeth. Mae prentisiaethau fel arfer yn ymwneud â phrentis, cyflogwr a darparydd hyfforddiant. Gall darparydd hyfforddiant prentisiaeth fod yn goleg addysg bellach, yn brifysgol neu'n ddarparydd hyfforddiant annibynnol. Gall prentisiaid ddod â chwyn atom am eu darparydd hyfforddiant os yw'n aelod o'n Cynllun, a byddwn yn penderfynu a allwn ystyried y gŵyn o dan ein Rheolau.

59. Mae'n bosibl y bydd yna hefyd asesydd diweddbwynt ar wahân. Bydd y trefniadau ar gyfer yr asesiad diweddbwynt mewn prentisiaethau gradd yn dibynnu ar a yw'r alwedigaeth yn cael ei rheoleiddio a sut. Mae'n bosibl y gall prentis gwyno i ni am ei asesiad diweddbwynt os yw'r asesydd yn aelod o'n Cynllun.

60. Mae prentis yn gyflogai yn ogystal â myfyriwr. Mae hyn yn golygu bod ganddynt hawliau cyflogaeth a all fod yn berthnasol os aiff pethau o chwith yn ystod prentisiaeth. Ni allwn ystyried cwynion am y cyflogwr, ac ni chaiff cyflogwyr gyhoeddi Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau, oni bai bod y cyflogwr hefyd yn gweithredu fel darparydd hyfforddiant a'i fod yn aelod o'n Cynllun.

61. Dim ond y prentis, neu rywun y mae'n ei enwebu i'w gynrychioli, all ddod â chŵyn atom ni. Ni allwn roi ystyriaeth i gwynion a all fod gan gyflogwr am ddarparydd hyfforddiant neu asesydd diweddbwynt, hyd yn oed os yw'r darparydd dan sylw'n aelod o'n Cynllun.

62. Bydd prentis fel arfer yn llofnodi cytundeb prentisiaeth a chynllun hyfforddiant. Mae'r cynllun hyfforddiant yn nodi'r hyfforddiant sydd i'w gyflwyno ac ymrwymiad y darparydd hyfforddiant, y cyflogwr a'r prentis i'r rhaglen. Dylai hefyd amlinellu'r broses y dylai'r prentis ei dilyn os oes ganddo ymholiad neu gŵyn. Y cytundeb hwn fydd ein man cychwyn ar gyfer cwynion am y darparydd hyfforddiant.

63. Gall fod gan ddarparydd brosesau cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill ar wahân yn benodol ar gyfer prentisiaid, oherwydd y gwahanol gyrff sydd dan sylw a'r cyd-destun rheoleiddio, ond dylai'r rhain barhau i ddilyn egwyddorion y Fframwaith Arfer Da. Dylai fod gwybodaeth glir ar gael i brentisiaid am ble a sut i godi pryderon am wahanol agweddau ar eu hyfforddiant a'u hasesiadau. Dylai gweithdrefnau'r darparydd fod yn glir ynghylch pa rôl, os o gwbl, y gallai'r cyflogwr ei chwarae yn y broses gwyno neu apelio.

64. Dylai'r darparwyr a'r sefydliadau sy'n ymwneud â chyflwyno prentisiaeth weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gan brentisiaid wybodaeth glir ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar y brentisiaeth, sut y gall prentisiaid godi pryderon neu gwynion, a sut i wneud apêl academaidd.

## Athrofeydd Technoleg

65. Mae Athrofeydd Technoleg yn drefniadau cydweithredol rhwng darparwyr addysg bellach, prifysgolion a chyflogwyr sy'n cyflwyno addysg dechnegol uwch yn Lloegr. Dylai'r gwahanol gyrff sy'n ymwneud ag Athrofa Dechnoleg gydweithio i wneud yn siŵr bod gan fyfyrwyr wybodaeth glir ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar eu hastudiaethau, sut y gall myfyrwyr godi pryderon neu gwynion a sut i wneud apêl academaidd, yn ogystal â llwybrau i'n Cynllun, gan ystyried yr egwyddorion uchod.

## Darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac endidau masnachol eraill

66. Weithiau bydd darparwyr yn gweithio gyda sefydliadau neu fusnesau eraill, er enghraifft datblygwyr llwyfannau dysgu ar-lein, i ddylunio a chyflwyno cwrs. Dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth am eu rôl mewn partneriaethau o'r fath yn glir ac yn gywir i fyfyrwyr a allai ddefnyddio'r gwasanaeth neu ymgymryd â chwrs astudio. Bydd darparwyr bron bob amser yn gyfrifol am ansawdd y profiad addysgu a dysgu, am roi cefnogaeth i'r myfyrwyr, ac am safon y dyfarniad yn y trefniadau hyn. Dylent roi gwybodaeth glir i fyfyrwyr ynghylch sut i godi pryderon am y cwrs ei hun ac am y modd y caiff ei weinyddu, yn ogystal â sut i uwchgyfeirio eu pryderon trwy weithdrefnau cwynion neu apeliadau academaidd y darparydd.

67. Mae yna fathau eraill o bartneriaeth rhwng darparydd a sefydliad arall, a all effeithio ar fyfyrwyr. Er enghraifft, gall sefydliad masnachol gyfrannu cyllid a deunyddiau ar gyfer prosiect ymchwil y mae myfyrwyr ôl-raddedig yn cymryd rhan ynddo trwy'r ymchwil y maent yn ei wneud ar gyfer eu cymhwyster. Fel arfer ni ddylid disgwyl i fyfyrwyr wneud cwyn i gwmni allanol am rywbeth y mae'r cwmni wedi'i wneud neu heb ei wneud sydd wedi effeithio ar eu hastudiaethau. Fel arfer dylai myfyriwr godi unrhyw bryderon am ei brofiad gyda'r darparydd, a lle bo angen dylai'r darparydd gysylltu â'r cwmni allanol i archwilio'r materion sydd dan sylw.

### Astudiaeth Achos 7: Mathau eraill o bartneriaeth

Mae myfyriwr yn astudio cwrs ar-lein trwy lwyfan ar-lein nad yw'n aelod o'n Cynllun. Mae'r cwrs ar-lein yn galluogi myfyrwyr i ennill credyd yn erbyn modiwl gan ddarparydd dyfarnu os ydynt yn dangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu trwy gwblhau asesiad perthnasol yn llwyddiannus. Mae'r myfyriwr yn cwblhau ac yn methu'r asesiad. Mae'n cyflwyno apêl academaidd i'r darparydd dyfarnu, sy'n aelod o'n Cynllun. Ni chaiff yr apêl ei chadarnhau fel her i farn academaidd a chaiff Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ei gyhoeddi.

Gall y myfyriwr ddod â chwyn atom am y modd y deliodd y darparydd dyfarnu â'r apêl a'i benderfyniad i beidio â chadarnhau'r apêl.

### Astudiaeth Achos 8: Mathau eraill o bartneriaeth

Mae pum myfyriwr ôl-raddedig yn defnyddio cronfa ddata o ganlyniadau profion a ddarparwyd gan gwmni fferyllol mewn partneriaeth â phrifysgol. Yn sydyn maent yn cael anhawster wrth fewngofnodi i'r system. Maen nhw'n gwneud ymholiadau cychwynnol i'r cwmni fferyllol ac yn cael gwybod bod nifer y trwyddedau wedi'u cyfyngu oherwydd mesurau torri costau.

Mae'r myfyrwyr yn codi'r broblem gyda'r brifysgol. Mae'r brifysgol yn negodi cytundeb y gall dau fyfyriwr barhau i fod â thrwydded. Rhoddir y trwyddedau i'r myfyrwyr sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn eu hymchwil ac mae'r brifysgol yn rhoi cymorth i'r myfyrwyr eraill i addasu eu gwaith. Mae un myfyriwr yn cwyno am na chafodd drwydded ac nad oedd am newid ei destun ymchwil. Mae'r brifysgol yn ystyried y gŵyn ac yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Gall y myfyriwr ddod â chwyn atom ynghylch sut yr ymatebodd y brifysgol i'w pryderon.

## Lleoliadau gwaith

68. Mae'n gyffredin i fyfyrwyr ymgymryd â lleoliadau gwaith sy'n cyfrannu at eu dysgu, er enghraifft, yn y GIG, mewn ysgolion neu mewn diwydiant. Efallai mai staff y lleoliad gwaith sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys problemau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ni ddylid disgwyl i fyfyrwyr fel arfer ddefnyddio proses gwyno ffurfiol darparydd y lleoliad i godi rhywbeth y mae darparydd y lleoliad wedi'i wneud neu heb ei wneud sydd wedi effeithio ar eu hastudiaethau. Fel arfer dylai myfyriwr godi unrhyw bryderon am ei brofiad gyda'r darparydd cyflwyno (os oes yna un ar wahân) neu'r partner dyfarnu, a lle bo angen dylai'r darparydd hwnnw gysylltu â darparydd y lleoliad i archwilio'r materion sydd dan sylw.

69. Weithiau gall myfyriwr hefyd gael ei gyflogi gan y sefydliad sy'n darparu'r lleoliad gwaith. Gall fod yn briodol i fyfyriwr gwyno'n uniongyrchol i ddarparydd y lleoliad gwaith lle mae ei bryderon yn ymwneud â'i brofiad fel cyflogai (er enghraifft, anghydfod ynghylch ei gyflog a buddion).

### Astudiaeth Achos 9: Mathau eraill o bartneriaeth

Mae myfyriwr yn astudio Nyrsio Oedolion gyda darparydd sy'n aelod o'n Cynllun. Mae'r myfyriwr yn ymgymryd â lleoliad gwaith gydag Ymddiriedolaeth GIG, ond caiff y lleoliad ei derfynu'n gynnar oherwydd pryderon ynghylch proffesiynoldeb oherwydd presenoldeb y myfyriwr a chyfathrebu ynghylch ei absenoldeb. Mae'r Ymddiriedolaeth GIG yn hysbysu'r darparydd nad yw'n barod i gynnig lleoliad newydd i'r myfyriwr o fewn yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r myfyriwr yn apelio yn erbyn y penderfyniad i derfynu'r lleoliad gwaith. Mae'r darparydd yn ymchwilio ac yn cadarnhau'r apêl ar sail amgylchiadau personol cymhellol y myfyriwr, ac oherwydd bod yr Ymddiriedolaeth GIG yn cadarnhau bod rhai problemau wedi'u derbyn yn ystod y lleoliad gwaith gan fod y mentor hefyd i ffwrdd ar absenoldeb salwch am gyfnod. Mae'r darparydd yn cynnig trefnu lleoliad newydd mewn Ymddiriedolaeth GIG wahanol, ac yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Gall y myfyriwr gwyno i ni am sut y deliodd y darparydd â'i apêl, ond nid am benderfyniad yr Ymddiriedolaeth GIG i beidio â'i gymryd yn ôl.

# Darparwyr â threfniadau partneriaeth lluosog

70. Mae'n bosibl y bydd gan ddarparwyr drefniadau partneriaeth gyda nifer o ddarparwyr a sefydliadau dyfarnu gwahanol. Fel y nodir uchod, gall y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion, apeliadau academaidd a phrosesau mewnol eraill amrywio. Lle mae sawl llwybr gwahanol ar gael i fyfyrwyr ar wahanol gyrsiau, gall fod yn ddryslyd cyhoeddi canllawiau manwl ar gyfer pob dull. Yn hytrach na disgwyl i fyfyrwyr ddewis a llywio'r drefn gywir o blith ystod eang o opsiynau, mae'n arfer da pwysleisio'r camau y mae'n rhaid i fyfyriwr eu cymryd i gychwyn proses. Dylai pa bynnag ddarparydd sy'n ymdrin â cham cyntaf y broses roi gwybodaeth glir i'r myfyriwr am sut i fynd â'r gŵyn, apêl academaidd neu fater arall i'r cam nesaf os yw'n dymuno gwneud hynny.

# Arfer da mewn cyd-destun partneriaeth

## Egwyddorion trosfwaol

71. Mae adrannau eraill o'r Fframwaith Arfer Da yn nodi egwyddorion a chanllawiau gweithredol i gynorthwyo darparwyr. Bydd angen i ddarparwyr ystyried ac addasu'r canllawiau sydd ar gael yn yr adrannau hyn i'w haddasu ar gyfer cyd-destunau partneriaeth. Ond dylai darparwyr fod yn ymwybodol o hyd o'r egwyddorion arfer da trosfwaol sy'n berthnasol i bob proses fewnol. Lle nad yw darparwyr yn dilyn y canllawiau a'r egwyddorion, dylent fod yn gallu esbonio'r rhesymau dros y dewis hwn.

### Eglurder

72. Mae angen i fyfyrwyr wybod beth a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y darparwyr sy'n cyflwyno eu cwrs astudio a'r darparydd neu sefydliad sy'n dyfarnu eu cymhwyster. Gall fod gan ddarparwyr amrywiaeth o bolisïau a dogfennau sy'n nodi'r disgwyliadau hyn, er enghraifft contractau myfyrwyr, llawlyfrau, codau ymddygiad, polisïau ar faterion fel cydraddoldeb ac amrywioldeb, rhyddid i lefaru a rheoliadau disgyblu a.y.b. Dylai darparwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth sicrhau bod eu disgwyliadau o fyfyrwyr yn gydnaws. Efallai y bydd yn bosibl cytuno ar egwyddorion a dulliau a rennir. Er enghraifft, efallai y bydd modd defnyddio'r un diffiniadau o fathau o gamymddwyn academaidd, hyd yn oed pan fo'r broses ar gyfer ymchwilio i bryderon am waith myfyriwr yn wahanol. Mae'n bwysig ei gwneud yn glir i fyfyrwyr sy'n astudio ar lwybr partneriaeth penodol ble mae yna unrhyw wahaniaeth yn y polisïau sy'n berthnasol iddynt.

### Prydlondeb

73. Gall darparwyr benderfynu ar y model gweithredol ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr, apeliadau a phrosesau mewnol eraill sy'n cyd-fynd orau â chyd-destun gweithredol eu partneriaeth benodol. Dylai darparwyr sy'n gweithio mewn partneriaethau ddylunio prosesau integredig i fyfyrwyr ymgysylltu â nhw er mwyn mynd i'r afael â'u pryderon; ni ddylid disgwyl i fyfyrwyr ymwneud â cham anffurfiol, ffurfiol ac adolygu gyda phob darparydd. Mae'r amserlenni a ddisgrifir mewn adrannau eraill o'r Fframwaith Arfer Da yn ymwneud ag ystyriaeth gyffredinol o bryder y myfyriwr ar draws y bartneriaeth; hynny yw, nid yw'r amserlenni'n ailgychwyn pan fydd mater yn symud o un partner i'r llall.

74. Bydd rhai materion a godir gan fyfyrwyr yn elwa ar ymateb cyflym. Mae'n arfer da sicrhau bod penderfyniadau o dan drefniadau partneriaeth yn gallu cael eu gwneud a'u cyfleu i fyfyrwyr yn gyflym. Mae'n bosibl y bydd darparwyr am ystyried datblygu canllawiau i staff sy'n caniatáu gwneud penderfyniadau cyflym, cyson o ansawdd uchel yn lleol, heb fod angen ymgynghori â phartneriaid ar bob cyflwyniad unigol.

### Datrysiad Anffurfiol

75. Bydd myfyrwyr yn aml yn mynd at y staff rheng flaen y maent fwyaf cyfarwydd neu gyfforddus â hwy. Mewn llawer o gyd-destunau bydd yn briodol i'r darparydd cyflwyno gynnig cyfle am ddatrysiad anffurfiol.

## Cyngor a chanllawiau / cymorth

76. Mae'n arfer da sicrhau bod gan staff y gall myfyrwyr fynd atynt ddealltwriaeth dda o sut mae gweithdrefnau'r darparydd yn gweithredu, a pha ddeilliannau sy'n bosibl oddi mewn iddynt. Mae'n bwysig fod gan staff lefel briodol o ymwybyddiaeth o'r prosesau gwahanol a all fod yn berthnasol mewn sefyllfaoedd lle gall myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau gyda gwahanol ddarparwyr neu sefydliadau dyfarnu fynd atynt am gyngor.

77. Mae hefyd yn arfer da sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei gyfeirio at ffynonellau cymorth a chyngor. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pa wasanaethau mewn darparydd partner y gall myfyriwr eu cyrchu, a gwneud yn siŵr bod hyn wedi'i gytuno â darparydd y gwasanaeth, er enghraifft, undeb y myfyrwyr neu gorff arall sy'n cynrychioli myfyrwyr mewn darparydd dyfarnu. Mater i ddarparwyr unigol a chyrff cynrychioli myfyrwyr yw penderfynu pa fyfyrwyr sydd â mynediad at eu gwasanaethau. Lle nad oes mynediad at gyngor ac arweiniad annibynnol, mae'n arfer da cyfeirio myfyrwyr at gymorth a ddarperir gan y darparwyr eu hunain.

## Ymchwiliad ffurfiol

78. Gall darparydd cyflwyno neu bartner dyfarnu gynnal cam ymchwiliad ffurfiol, yn dibynnu ar eu trefniadau. Wrth ddylunio'r broses, dylai darparwyr ystyried:

- pa bartner sydd yn y sefyllfa orau i gasglu gwybodaeth berthnasol
- gan bwy mae'r awdurdod i wneud penderfyniadau. Lle mae darparwyr yn penderfynu y dylai'r naill bartner â'r llall ymwneud â phenderfyniad, dylent ofalu nad ydynt yn caniatáu i aelodaeth unrhyw baneli dyfu'n rhy fawr, er mwyn sicrhau nad yw'n codi ofn ar y myfyriwr ac i leihau'r baich gweinyddol.
- Y cyd-destunau rheoleiddiol a allai atal darparydd rhag dirprwyo cyfrifoldeb am rai penderfyniadau.

Gallai darparwyr llai elwa o gynnwys partneriaid yn ystod y cam ymchwilio ffurfiol i helpu â darparu safbwynt annibynnol a rheoli canfyddiadau posibl o ragfarn.

## Adolygiad Terfynol

79. Os yw'r mater yn ymwneud â dilyniant, neu gymhwyster terfynol y myfyriwr, neu ansawdd a safonau dyfarniad, y partner dyfarnu fydd yn cynnal y cam adolygu terfynol fel arfer. Dylai'r partner dyfarnu sicrhau bod yna ymagwedd gyson, yn enwedig lle mae ganddo fwy nag un partner cyflwyno sy'n darparu addysgu ar gyfer yr un cymwysterau neu rai tebyg. Efallai y bydd yn dewis cynnwys aelodau o staff y darparydd cyflwyno yn y broses.

80. Mewn materion eraill, gall y partner cyflwyno gynnal y cam adolygu terfynol. Lle nad yw partneriaid dyfarnu'n ymwneud yn weithredol mewn achosion unigol, mae'n arfer da sefydlu rhyw fath arall o arolygiaeth gan y partner dyfarnu o faterion a brofir gan fyfyrwyr ar y cwrs astudio penodol.

# Cyfleoedd i ystyried cwynion, apeliadau a phrosesau eraill mewn trefniadau partneriaeth

81. Mae'n arfer da sicrhau bod cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill yn cael eu hystyried ar adegau allweddol yn ystod oes y bartneriaeth.

## Wrth sefydlu partneriaethau newydd

### Dynodi cyfrifoldebau

82. Mae cyfathrebu da rhwng y darparwyr partner a rhwng gwahanol dimau o fewn y darparwyr yn hanfodol. Mae angen i dimau sy'n sefydlu ac yn rheoli'r trefniadau partneriaeth fod â dealltwriaeth dda o sut y dylai cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill weithio fel y gallant wneud yn siŵr bod trefniadau'n gweithio'n dda rhwng y gwahanol bartneriaid. Mae angen i dimau sy'n rheoli cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill fod yn gyfarwydd â'r rhannau perthnasol o drefniant y bartneriaeth, fel eu bod yn deall pa bartner sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar astudiaethau a phrofiad myfyrwyr.

83. Wrth sefydlu partneriaeth newydd dylai darparwyr partner sicrhau eu bod yn gwybod pa ddarparwyr sy'n cael eu cynnwys yn ein Cynllun a pha fyfyrwyr sy'n cael eu cynnwys. Rydym bob amser yn croesawu sgwrs os hoffai darparwyr gael rhywfaint o gyngor ynghylch a ydynt wedi'u cynnwys yn ein Cynllun.

84. Dylai darparwyr nodi'n ysgrifenedig rwymedigaethau a chyfrifoldebau pob partner ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr, apeliadau academaidd a phrosesau mewnol eraill. Yn gyffredinol, mae rhannu cyfrifoldebau ar gyfer ymdrin â phrosesau mewnol yn fater i'r darparwyr ei benderfynu rhyngddynt eu hunain gan ystyried eu cyd-destun a'u rolau rheoleiddio penodol. Mae'n bwysig nodi pwy sy'n gyfrifol am weithredu (ar wahân i unrhyw gyfrifoldebau rheoleiddio) rhannau penodol o'r prosesau mewnol, gan gynnwys camau datrys cynnar.

85. Mae'n bosibl y bydd darparwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth yn dymuno cytuno, a nodi'n ysgrifenedig, drefniadau ar gyfer rheoli cwyn neu apêl academaidd gan grŵp mawr.

### Casglu a rhannu gwybodaeth

86. Mae'n arfer da gosod disgwyliadau clir o ddechrau'r trefniant partneriaeth ynghylch gwybodaeth y gellir ei rhannu pan fydd cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill ar waith. Gall fod yn ddefnyddiol ystyried dulliau o gadw cofnodion fel bod pob darparydd yn deall yr hyn y gall y llall ddisgwyl iddynt ei gyflenwi ar gyfer gwahanol fathau o brosesau. Gall fod yn briodol i ymgynghori ag arbenigwyr rheoli gwybodaeth, er enghraifft, i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data berthnasol neu i sefydlu systemau rhannu data diogel ac effeithlon. Dylai darparwyr gymryd camau i sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth angenrheidiol â swyddogaethau gweinyddol, ymchwiliol a gwneud penderfyniadau perthnasol, gan gynnal lefel briodol o gyfrinachedd, preifatrwydd a diogelwch.

87. Mae'n arfer da gosod disgwyliadau clir o ddechrau'r trefniant partneriaeth ynghylch cyfranogiad pob partner o fewn y prosesau mewnol hyn. Er enghraifft, fel bod staff perthnasol yn ymateb i geisiadau am wybodaeth yn brydlon ac yn llawn, hyd yn oed os yw'r ceisiadau'n deillio o'r darparydd arall. Yn benodol, efallai y bydd darparwyr yng Nghymru a Lloegr am ystyried sut y gallant ddylanwadu ar yr amser a gymerir gan ddarparwyr partner nad ydynt efallai'n gweithio yn unol ag amserlenni ein Fframwaith Arfer Da.

### Cynnig datrysiadau

88. Mae'n arfer da gosod disgwyliadau clir o ddechrau'r trefniant partneriaeth ynghylch pa ddarparydd sy'n gyfrifol am weithredu'r camau a nodir fel rhai priodol yn ystod cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill. Efallai y bydd angen i ddarparwyr gynnig datrysiad unigol i fyfyriwr neu newid arferion. Weithiau mae'n bosibl y bydd angen i bartneriaid gydweithio er mwyn cytuno a darparu datrysiad. Ni ddylid rhoi myfyrwyr mewn sefyllfa lle mae eu problemau'n parhau i fod heb ei datrys oherwydd ni all partneriaid gytuno ar ba gamau i'w cymryd a chan bwy.

### Mynediad at gyngor a chanllawiau

89. Cyn ymrwymo i drefniadau partneriaeth, mae'n arfer da ymgynghori â chyrff cynrychioli myfyrwyr, os oes gan y darparwyr gorff o'r fath, a/neu â staff mewn rolau cymorth myfyrwyr perthnasol, ynghylch pa wasanaethau y gall myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau sy'n destun trefniadau partneriaeth gael mynediad iddynt. Mae'n arfer da dogfennu deilliannau'r ymgynghoriadau hyn.

### Dysgu o gwynion

90. Mae'n arfer da sefydlu ar ddechrau trefniant partneriaeth sut y bydd darparwyr yn rhannu'r hyn a ddysgir o gwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill.

### Edrych tua'r dyfodol

91. Mae'n arfer da wrth sefydlu partneriaethau newydd i edrych ymlaen at bryd y gall y bartneriaeth ddod i ben. Er enghraifft, mae'n ddefnyddiol i ddarparwyr sefydlu trefniadau mewn egwyddor ar gyfer cadw cofnodion myfyrwyr perthnasol neu wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i gŵyn myfyriwr, apêl neu broses fewnol arall.

## Yn ystod trefniadau partneriaeth

### Cyfathrebu

92. Dylai darparwyr gyhoeddi gwybodaeth glir i fyfyrwyr am eu trefniadau ar gyfer cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill. Dylai'r wybodaeth wneud y canlynol:

- disgrifio pwrpas cyffredinol y broses
- rhoi trosolwg o ba gamau fydd yn cael eu dilyn
- nodi a fydd sefydliad partner yn ymwneud â'r broses
- disgrifio rhai o ddeilliannau posibl y broses ac unrhyw gyfyngiadau ar y materion y gall y broses fynd i'r afael â hwy
- nodi'n glir y camau y dylai myfyriwr eu cymryd i ddechrau'r broses, gan gynnwys unrhyw derfynau amser sy'n berthnasol.

93. Nid oes angen i'r ddogfennaeth nodi'n fanwl sut yr ymdrinnir â phob cwyn, apêl academaidd neu fater arall. Dylai'r darparwr sy'n cael cwyn, apêl academaidd neu bryder arall yn y cam cyntaf ddweud wrth y myfyriwr beth sydd angen iddo ei wneud os yw'n dymuno symud y mater ymlaen i'r cam nesaf. Gall fod yn ddefnyddiol cynnwys rhywfaint o wybodaeth mewn llawlyfrau sy'n benodol ar gyfer y cwrs mae'r myfyriwr yn ei astudio.

94. Lle disgwylir i fyfyrwyr ymwneud â mwy nag un sefydliad yn ystod proses fewnol, dylai darparwyr gyfeirio myfyrwyr at y llwybr priodol ar gyfer cysylltu, er enghraifft trwy ddarparu cyfeiriad e-bost, dolen i ffurflen gyswllt ar y we, neu rif ffôn. Nid yw'n arfer da disgwyl i fyfyrwyr ddod o hyd i'r person neu'r swyddogaeth berthnasol i gysylltu â nhw.

95. Gall myfyrwyr ar gyrsiau astudio a gyflwynir dan drefniant partneriaeth fod yn aelodau o fwy nag un gymuned academaidd, a/neu gymuned broffesiynol. Gallant astudio a byw ochr-yn-ochr â myfyrwyr sy'n astudio tuag at gymwysterau a ddyfernir mewn cyd-destunau tra gwahanol. Mae myfyrwyr yn aml yn ymwybodol iawn o wahaniaethau yn eu profiadau ac yn gwerthfawrogi cysondeb o ran ymagwedd. Mae'n bwysig bod darparwyr mewn trefniadau partneriaeth yn gweithredu eu prosesau mewnol mewn ffyrdd sy'n arwain at gysondeb cyffredinol o ran gwneud penderfyniadau mewn perthynas â myfyrwyr ar lwybrau tebyg.

96. Os oes gwahaniaethau sylweddol o ran argaeledd, gweithrediad neu ddeilliannau posibl prosesau mewnol ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau astudio sy'n destun trefniant partneriaeth, o gymharu â myfyrwyr sy'n astudio gydag un darparydd yn unig, yna dylai darparwyr allu cyflwyno sail resymegol glir ar gyfer hyn i fyfyrwyr. Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i ddarparu gwybodaeth glir i ymgeiswyr a allai fod yn berthnasol i'w penderfyniad i astudio ar gyfer cymhwyster o dan lwybr penodol neu trwy bartner penodol. Er enghraifft, byddai'n briodol i ddarparydd cyflwyno dynnu sylw myfyrwyr at bolisi ail-asesu sydd ar waith ar gwrs astudio a gyflwynir mewn partneriaeth â phartner dyfarnu penodol, os yw'r polisi hwnnw'n fwy cyfyngol na'i ymagwedd ar gyrsiau tebyg nad ydynt yn cael eu cyflwyno dan drefniant partneriaeth.

97. Mae'n bwysig bod staff yn cael gwybodaeth a hyfforddiant priodol ar y pwyntiau uchod fel y gallant gynghori myfyrwyr yn gywir.

## Gwneud newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau

98. Dylai fod gan bartneriaid fecanweithiau ar waith ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd ac ar gyfer cytuno ar unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar fyfyrwyr. Pan fydd partner dyfarnu yn newid ei bolisïau a/neu weithdrefnau a bydd hyn yn effeithio ar y trefniadau partneriaeth gyda'r partner cyflwyno, dylai fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau y cytunir ar y newidiadau hyn gyda'r partner cyflwyno a'u cyfleu i staff a myfyrwyr.

99. Dylai partneriaid hefyd ystyried effaith newidiadau posibl mewn prosesau gweinyddol (er enghraifft arferion cadw cofnodion) ar ymdrin â chwynion ac apeliadau o fewn trefniadau partneriaeth.

## Cymesuredd ac Amseroldeb

100. Lle mae'n rhaid i achos myfyriwr gael ei ystyried gan fwy nag un darparydd, mae'n arfer da i'r darparwyr gwblhau'r broses fewnol o fewn yr amserlenni a ddisgrifir mewn adrannau eraill o'r Fframwaith Arfer Da. Mae hyn fel arfer yn 90 diwrnod calendr ar gyfer cwblhau'r camau ffurfiol ac adolygu.

101. Bydd amgylchiadau, am reswm da, pan fydd angen i'r broses gymryd mwy o amser. Lle mae angen ymestyn yr amserlen, dylai'r darparydd sy'n cyflawni'r cam hwnnw o'r broses esbonio hyn i'r myfyriwr a dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo'n rheolaidd ynghylch cynnydd ei gŵyn, apêl academaidd neu fater arall. Fel arfer ni fydd methu â pharatoi proses sy'n berthnasol i fyfyrwyr ar gyrsiau sy'n destun trefniadau partneriaeth yn rheswm da dros gymryd mwy o amser i ystyried pryderon y myfyriwr.

102. Lle mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd mae'n arbennig o bwysig i weithdrefnau fod yn gymesur. Fel arfer ni fydd yn briodol disgwyl i fyfyrwyr ddyblygu neu ailadrodd proses lawn gyda mwy nag un darparydd ynghylch yr un materion, naill ai ar yr un pryd neu'n olynol. Mae'r Fframwaith Arfer Da: Ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yn dweud ei bod yn arfer da i weithdrefnau cwynion ac apeliadau academaidd gynnwys dim mwy na thri cham. Mae hyn yn dal yn berthnasol ble mae mwy nag un darparydd yn ymwneud â'r achos.

## Cyngor a Chanllawiau

103. Mae'n arfer da sicrhau bod ffynonellau cyngor ac arweiniad, gydag adnoddau ar eu cyfer, ar gael i fyfyrwyr. Yn aml bydd y cymorth hwn ar gael o fewn corff cynrychioli myfyrwyr y darparydd. Os nad oes gan ddarparydd wasanaeth cynghori myfyrwyr neu gorff cynrychioli myfyrwyr sefydledig, dylai ystyried gwneud trefniadau gyda'i ddarparwyr partner, neu gyda darparwyr cyfagos eraill, i alluogi ei fyfyrwyr i gael mynediad at wasanaethau cymorth.

104. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylai darparwyr sicrhau bod aelodau staff sy'n annibynnol ar y mater sy'n cael ei ystyried o dan y broses fewnol yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr am y broses.

## Hyfforddiant

105. Gall darparwyr ystyried cynnig hyfforddiant ar y cyd ar sut i ymdrin â chwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill i staff ar draws eu partneriaid.

106. Mae'n arfer da i'r holl staff fod â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r trefniadau ar gyfer cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill fel y gallant gyfeirio myfyrwyr at wybodaeth berthnasol. Mae'n bwysig bod pobl sy'n gweithredu prosesau mewnol yn gwybod ble i gyfeirio myfyrwyr am gymorth, o fewn cyd-destun trefniadau partneriaeth.

## Dysgu o gwynion

107. Dylai darparwyr adolygu sut y cynhelir eu trefniadau partneriaeth yn rheolaidd mewn perthynas â chwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

108. Dylai darparwyr hefyd adolygu'n rheolaidd y wybodaeth a gynhyrchir o fewn cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill am brofiadau myfyrwyr ac ansawdd a safonau'r cyrsiau a ddarperir mewn trefniadau partneriaeth. Mae'n arfer da i'r wybodaeth hon fod yn rhan o werthusiad anffurfiol a ffurfiol o'r trefniadau partneriaeth, er enghraifft wrth benderfynu a ddylid parhau â threfniant gyda phartner penodol.

109. Mae'n arfer da i ddarparwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd rannu a gweithredu'r hyn sy'n cael ei ddysgu o gwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill gan fyfyrwyr ar y cyrsiau hyn. Gall fod yn briodol rhannu'r hyn a ddysgir hyd yn oed pan nad oes gan y partner arall unrhyw ran uniongyrchol i'w chwarae mewn proses benodol. Dylai'r data fod yn ddienw fel sy'n briodol.

110. Yn yr un modd, mae'n arfer da i ddarparwyr sy'n cydweithio rannu gwybodaeth â'i gilydd am gwynion a wneir i ni gan fyfyrwyr ar y cyrsiau hynny. Er enghraifft, gallai darparydd dyfarnu a anfonodd Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau i fyfyriwr ar ddiwedd gweithdrefn apeliadau academaidd ddweud wrth y darparydd cyflwyno os yw'r myfyriwr hwnnw'n mynd ymlaen i gwyno i ni, a gallai rannu ein penderfyniad gyda'r darparydd cyflwyno. Yn yr un modd, mae'n arfer da i ddarparydd cyflwyno hysbysu'r darparydd dyfarnu perthnasol os yw myfyriwr y mae wedi anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau iddo'n mynd ymlaen i gwyno i ni, ac i rannu ein penderfyniad â'r darparydd dyfarnu.

111. Mae rhannu gwybodaeth fel hyn yn helpu darparwyr i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd cwynion, apeliadau, camymddwyn, neu bryderon eraill a, lle bo'n briodol, gellir nodi cyfleoedd hyfforddi a gwneud gwelliannau.

## Pan fydd trefniadau rhwng darparwyr partner yn newid yn sylweddol neu'n dod i ben

112. Dylai fod gan bob darparydd gynlluniau ar waith sy'n amlinellu sut y bydd y risgiau i fyfyrwyr yn sgil newid sylweddol mewn trefniadau partneriaeth yn cael eu rheoli. Bydd darparwyr yn Lloegr sy'n cael eu rheoleiddio gan y Swyddfa Myfyrwyr wedi cyhoeddi Cynllun Amddiffyn Myfyrwyr yn nodi'r hyn y gall myfyrwyr ddisgwyl i ddigwydd os bydd cwrs, campws neu ddarparwr yn cau, a dylai hyn gynnwys trefniadau gyda phartneriaid. Mae CCAUC yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad a reoleiddir a/neu a ariennir yng Nghymru fod â siarter myfyrwyr sy'n amlinellu sut y caiff buddiannau myfyrwyr eu diogelu mewn achosion pan fo cwrs neu sefydliad yn peidio â bodoli. Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Amddiffyn Dysgwyr, sy'n nodi sut y bydd darparydd yn diogelu buddiannau dysgwyr pe bai tarfu ar gwrs neu fod cwrs yn cau, a sut y gallai darparwyr hwyluso'r broses o drosglwyddo dysgwyr i ddarparwyr eraill. Mae'n bosibl bod darparwyr eraill wedi paratoi dogfennau tebyg fel rhan o'u prosesau rheoli risg neu i fodloni gofynion rheoleiddio eraill. Mae'n arfer da i bartneriaid wirio bod y cynlluniau a baratowyd gan bob parti mewn trefniant partneriaeth yn gydnaws ac yn cael eu cynnal.

### Newidiadau sylweddol arfaethedig neu derfynu partneriaeth

113. Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall partneriaeth newid, er enghraifft pontio o bartneriaeth ar sail is-gontract i bartneriaeth wedi'i dilysu. Lle mae newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud, bydd angen i ddarparwyr ystyried llawer o'r un materion â phe bai partneriaeth yn dod i ben. Beth bynnag fo amgylchiadau'r newid yn y bartneriaeth, mae'n bwysig nad yw gallu myfyrwyr i godi cwynion ac apeliadau'n cael ei effeithio'n negyddol, a dylai darparwyr gyfleu unrhyw drefniadau pontio ar gyfer y prosesau hyn yn glir.

114. Gall partneriaethau derfynu pan fydd y naill bartner a'r llall yn penderfynu dod â'r trefniant i ben. Lle bwriedir dod â phartneriaeth i ben, gall hyn ddigwydd ar ôl i bob carfan gwblhau eu hastudiaethau. Mae'n arfer da ystyried pa drefniadau a all fod yn angenrheidiol i gynnig cymorth i fyfyrwyr nad ydynt efallai'n gorffen gyda'u carfan, er enghraifft, myfyrwyr sydd wedi cymryd cyfnod i ffwrdd o astudio oherwydd rhesymau iechyd.

115. O dan ddeddfwriaeth defnyddwyr, rhaid rhoi unrhyw wybodaeth berthnasol i fyfyrwyr am y cwrs y maent yn gwneud cais amdano cyn iddynt ymgeisio. Os yw darparydd wedi gwneud newidiadau cyn i gynnig gael ei wneud, dylid dwyn y newidiadau hyn i sylw'r myfyriwr pan fydd y darparydd yn gwneud cynnig fel y gall y myfyriwr wneud dewis gwybodus am y cynnig. Os yw'r darparydd

yn rhagweld, pan fydd yn gwneud y cynnig, y gallai trefniadau partneriaeth newid ar ôl i'r myfyriwr dderbyn y cynnig, yna rhaid i'r darparydd ddweud wrth fyfyrwyr beth allai newid, pryd a sut, fel y gall y myfyriwr gytuno i hyn.

116. Pan fydd partneriaeth yn dod i ben, dylai darparwyr esbonio'n glir i fyfyrwyr beth sy'n digwydd a phryd. Mae'n arfer da i ddarparwyr gydlynu'r cyfathrebu hwn, fel ei fod yn glir, yn gyson ac nad yw'n llethol. Bydd rhai myfyrwyr yn fwy ymgysylltiedig nag eraill ac yn haws eu cyrraedd, ac felly bydd angen gwahanol ddulliau o gyfathrebu. Efallai y bydd angen sensitifrwydd hefyd o amgylch amseriad cyfathrebiadau pwysig. Mae'n bwysig cadw cofnodion o gyfathrebiadau fel eu bod ar gael os bydd myfyriwr yn cwyno'n ddiweddarach.

117. Mae'n arfer da sicrhau bod mecanweithiau ar gyfer codi cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill yn parhau i fodoli am gyfnod ar ôl i'r gwaith o gyflwyno gweithgareddau addysgu, dysgu ac ymchwil ddod i ben i fyfyrwyr. Ni ddylai cyfleoedd i fyfyrwyr godi pryderon am rywbeth a ddigwyddodd pan oedd trefniant partneriaeth ar waith gael eu cwtogi'n afresymol oherwydd bod y cytundeb hwnnw wedi dod i ben. Lle mae diwedd y trefniant partneriaeth yn debygol o effeithio ar sut y gall darparydd ymateb i neu fynd i'r afael â phryderon myfyrwyr, mae'n arfer da esbonio hyn i'r myfyrwyr dan sylw.

118. Pryd bynnag y daw partneriaethau i ben, mae'n arfer da nodi unrhyw gwynion, apeliadau neu brosesau mewnol eraill sydd eisoes ar waith mewn perthynas â myfyrwyr ar gyrsiau yr effeithir arnynt. Gall fod yn briodol i gyflymu'r materion hyn fel y gellir rhoi canlyniad y broses i fyfyrwyr. Dylai darparwyr ystyried blaenoriaethu unrhyw weithdrefnau disgyblu neu addasrwydd i ymarfer, fel nad yw myfyrwyr o dan anfantais annheg yn eu hastudiaethau pellach a'u gyrfaoedd oherwydd bodolaeth ymchwiliad anghyflawn.

119. Mae'n bwysig gwneud trefniadau ar gyfer cadw cofnodion myfyrwyr perthnasol, fel y gellir ymchwilio'n effeithiol i faterion myfyrwyr a godir o fewn amserlen resymol ar ôl diwedd y bartneriaeth. Mae hefyd yn arfer da dweud wrth fyfyrwyr pa wybodaeth sy'n cael ei chadw. Er enghraifft, efallai y bydd angen i fyfyrwyr ddeall beth fydd yn digwydd i bortffolio o waith, neu sut y gallant ofyn am eirda, cadarnhad o'u cyflawniad academaidd, neu statws ariannol yn y dyfodol.

## Dod â phartneriaeth i ben heb ei gynllunio

120. Weithiau gall partneriaethau ddod i ben ynghynt na'r disgwyl neu ar fyr rybudd, tra bod myfyrwyr yn dal i astudio ar y cwrs. Er enghraifft, gall anawsterau ariannol, o ran llywodraethiant neu anawsterau eraill arwain at fethiant y trefniant partneriaeth rhwng darparydd cyflwyno a'r partner dyfarnu.

121. Gallai diwedd partneriaeth arwain at gau cwrs neu gampws. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen i ddarparwyr weithredu'n hyblyg i gynnig cymorth i bob myfyriwr ac i leihau effaith cau'r cwrs, y campws neu'r darparydd arnynt.

122. Pan ddaw partneriaeth i ben yn annisgwyl mae myfyrwyr yn debygol o godi nifer o bryderon. Rydym yn annog darparwyr yn y sefyllfa hon i gysylltu â ni i drafod sut y gellir addasu cwynion, apeliadau a phrosesau mewnol eraill i ystyried yr amgylchiadau newydd. Bydd angen i ddarparwyr weithredu'n hyblyg.

123. Os daw partneriaeth i ben yn sydyn oherwydd bod un partner wedi cau, mae'n debygol o fod yn briodol i'r darparydd nad yw wedi cau gymryd cyfrifoldeb am ymateb i bryderon y myfyrwyr. Mewn achos ble mae'r darparydd nad yw wedi cau yn aelod o'n Cynllun, dylai anfon Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau i fyfyrwyr. Gall y llythyr esbonio a fyddai'r mater fel arfer wedi bod yn gyfrifoldeb y partner sydd wedi cau a nodi'r hyn y mae'r darparydd wedi gallu ei wneud a'r hyn nad yw wedi gallu ei wneud o dan yr amgylchiadau penodol.

124. Pan fydd darparydd cyflwyno'n cau neu'n dileu cwrs, mae'n arfer da i'r darparydd dyfarnu geisio dod o hyd i drefniadau amgen sy'n galluogi myfyrwyr i gwblhau cwrs yr oeddent yn disgwyl iddo arwain at gymhwyster (lle mae'r partner dyfarnu wedi'i reoleiddio, mae hyn yn debygol o fod yn ofyniad rheoliadol). Mewn rhai achosion, efallai y bydd y myfyrwyr yn gallu trosglwyddo i'r darparydd dyfarnu, neu i bartner cyflwyno arall.

125. Pan fydd darparydd dyfarnu'n cau neu'n dileu cwrs, mae'n bosibl y bydd y partner cyflwyno'n gallu dod o hyd i ddarparydd dyfarnu arall i weithio gyda hwy. Mae'n bwysig trafod y newid hwn gyda myfyrwyr ac egluro beth allai'r effaith fod ar brofiad y myfyrwyr a'r cymhwyster y byddant yn ei dderbyn. Lle nad yw'n bosibl disodli'r darparydd dyfarnu â darparydd arall, mae angen i'r naill ddarparydd a'r llall weithio gyda'r myfyrwyr i ddod o hyd i ddarparwyr addas i drosglwyddo iddynt.

126. Lle mae partneriaeth yn dod i ben, ein man cychwyn wrth adolygu cwynion fydd unrhyw gynlluniau amddiffyn myfyrwyr perthnasol, y cytundeb rhwng y darparwyr sy'n rhan o'r bartneriaeth, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n rhoi'r cytundeb hwnnw ar waith, ac unrhyw ofynion rheoliadol y dylai'r darparwyr eu dilyn. Byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth a ddarperir i'r myfyrwyr.

# Adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddogfennau

- Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER), Cymru
  https://gov.wales/tertiary-education-and-research-commission
- Yr Adran Addysg (DfE)
  https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-education/about
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
  https://www.hefcw.ac.uk/en/
- Addysg Uwch: cyngor ar gyfraith defnyddwyr i ddarparwyr
  https://www.gov.uk/government/publications/higher-education-consumer-law-advice-for-providers/
- Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)
  https://www.hesa.ac.uk/
- Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) - gwybodaeth am Achredu Proffesiynol, Cyrff Proffesiynol Statudol a Rheoleiddio (PSRBs)
  https://www.hesa.ac.uk/collection/c12061/psrb_faq
- Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)
  https://www.gov.uk/government/organisations/ofsted/about
- Swyddfa'r Myfyrwyr (OfS)
  https://www.officeforstudents.org.uk/
- Swyddfa Rheoliadau Cymwysterau ac Arholiada (Ofqual)
  https://www.gov.uk/government/organisations/ofqual/
- QAA – yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
  https://www.qaa.ac.uk
- Cymwysterau Cymru
  https://www.qualificationswales.org/english/about-us/
- Nodyn briffio SDA ar gau cyrsiau, campysau neu ddarparwyr
  https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/briefing-notes/oia-briefing-note-on-course-campus-or-provider-closure/
- Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau SDA
  https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters/
- Geirfa SDA
  https://www.oiahe.org.uk/information/glossary/

- Fframwaith Arfer Da SDA
  https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/
- Canllawiau SDA ar y Rheolau
  https://www.oiahe.org.uk/about-us/our-scheme/our-rules/guidance-on-the-rules/
- Aelodaeth SDA
  https://www.oiahe.org.uk/about-us/our-scheme/our-members/
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban
  https://www.spso/org.uk/
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon
  https://www.nipso.org.uk/

office of the
independent
adjudicator

## Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er Addysg Uwch

Second Floor Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
Berkshire
RG1 3AB

0118 959 9813
enquiries@oiahe.org.uk
oiahe.org.uk

Diwygiwyd Chwefror 2024